# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar The Branas School

Dyddiad yr arolygiad: 09/03/2026

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Ysgol Branas yn darparu amgylchedd dysgu croesawgar lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu cefnogi. Mae llawer o ddisgyblion yn ymuno â'r ysgol ar ôl profi tarfu yn eu haddysg flaenorol. Trwy arferion cyson, disgwyliadau clir a chymorth amlddisgyblaethol cryf, mae disgyblion yn gwella'u presenoldeb, eu hymddygiad a'u hymgysylltiad â dysgu.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn hynod ymatebol i fannau cychwyn, diddordebau ac anghenion unigol disgyblion. Mae dysgu yn cyfuno pynciau yn yr ystafell ddosbarth gyda mynediad rheolaidd at y gymuned ehangach, sy'n helpu disgyblion i feithrin eu gwybodaeth a'u medrau mewn ystod o gyd-destunau. Dros gyfnod, mae disgyblion yn datblygu medrau mewn llythrennedd, rhifedd, technoleg ddigidol a gwyddoniaeth. Cânt eu cefnogi i gymhwyso'u dysgu, er enghraifft cysylltu syniadau o wyddoniaeth â thechnoleg neu ddefnyddio medrau mathemategol mewn gweithgareddau ymarferol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 4, mae llawer o ddisgyblion yn ennill ystod o gymwysterau ac achrediadau, ac yn symud ymlaen i addysg bellach a hyfforddiant.

Mae gweithgareddau fel dringo, caiacio, ymweliadau addysgol ac ymgysylltu â'r gymuned yn helpu disgyblion i ddatblygu gwydnwch, gwaith tîm a medrau datrys problemau. Mae'r profiadau cyfoethog hyn yn darparu cyfleoedd ar gyfer datblygiad personol ac yn paratoi disgyblion ar gyfer bywyd ar ôl yr ysgol.

Un o gryfderau nodedig yr ysgol yw'r cydweithio agos rhwng staff addysg, gofal, a therapiwtig. Defnyddir ystod eang o ddata asesu i lywio cynlluniau dysgu unigol, ac mae'r dull integredig hwn yn helpu staff i ddarparu cymorth cyson i ddiwallu anghenion cymorth emosiynol ac ymddygiadol disgyblion. O ganlyniad, mae disgyblion yn gynyddol fodlon ac yn gallu cymryd rhan mewn gwersi a gweithgareddau ehangach yr ysgol.

Mae arweinwyr wedi sefydlu gweledigaeth glir yn canolbwyntio ar gynhwysiant, parch ar y ddwy ochr a datblygu annibyniaeth. Mae disgyblion yn cyfrannu'n weithgar at fywyd yr ysgol trwy rannu eu barn a chymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau, sy'n eu helpu i ddatblygu ymdeimlad o gyfrifoldeb a pherthyn o fewn cymuned yr ysgol.

Mae arweinwyr wedi profi heriau o ran recriwtio a chadw athrawon mewn nifer fach o feysydd pwnc, sydd wedi cael effaith andwyol ar gysondeb addysgu a dysgu ar draws yr ysgol. Mae arweinwyr yn dadansoddi perfformiad yr ysgol ac yn rhoi cynlluniau strwythuredig ar waith i gefnogi gwelliant. Fodd bynnag, nid yw meini prawf llwyddiant yn gyson fesuradwy, ac ni chaiff llinellau amser a chyfrifoldebau eu diffinio'n gyson. O ganlyniad, ni chaiff effaith y camau gweithredu ar ddeilliannau disgyblion ei gwerthuso'n systematig ac nid yw dysgu proffesiynol sy'n canolbwyntio ar wella addysgu a dysgu wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

# Argymhellion a beth sy’n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu’r ysgol i barhau i wella, sef:

A1 Gwella sefydlogrwydd a chysondeb yr addysgu

A2 Cryfhau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant i ganolbwyntio’n gliriach ar effaith fesuradwy ar ddeilliannau disgyblion

A3 Cryfhau dysgu proffesiynol i gael ffocws cyson ar addysgu a dysgu

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o’r ysgol, dilynwch y ddolen hon i’r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae’r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu’n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 14/05/2026